


Ein Bro

Newyddion
Ysgol Bro Hyddgen

News



Haf 2018 / Summer 2018

2 Gair gan y Pennaeth

Annwyl Riant/Ofalwr

Yn gyntaf hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn; rydym wedi llwyddo i gyflawni llawer iawn yn ystod y flwyddyn hon.

Staffo

Hoffwn ddymuno'n dda i nifer o staff sydd yn gadael Ysgol Bro Hyddgen ar ddiwedd y tymor hwn. Bydd Mrs Sian Calban a Mrs Eluned Besent yn ymdeol yn dilyn blynhyddoedd o wasanaeth diflino i'r ddarpariaeth addysg gynradd yn y dre. Diolch hefyd i Mr Alex Roberts a Mr Nic Ross am eu gwaith yn y sector uwchradd yn darparu gwersi celfyddydau mynegiannol. Mae Miss Erin Good eisoes wedi ein gadael ni yn dilyn ei phenodi'n bennaeth y gyfadran Wyddoniaeth yn Ysgol Gyfun Penweddig ac fe gadodd Mrs Erian Davies ei secondio i weithio gydag ERW.

Cafodd Miss Iona Davies ei phenodi'n Arweinydd y Cyfnod Sylfaen; a Miss Iona Thomas i ddysgu Daearyddiaeth a Miss Manon Williams i ddysgu'r Gymraeg yn ystod cyfnod mamolaeth Miss Anna Davies. Bydd Mrs Catrin Mai Davies yn dysgu Drama yn yr ysgol flwyddyn nesaf tra bydd Mrs Catrin Hughes a Mrs Jane Baraclough yn gyfrifol am ddysgu Celf a bydd Mrs Angharad Elias yn dysgu Astudiaethau Cyfryngau i safon TGAU. Dymunaf yn dda iddynt oll yn eu dyletswyddau newydd. Hoffwn hefyd longyfarch Miss Anna Davies ar enedigaeth ei mab, Owi Moi.

Bws Mini

Darparwyd bws mini newydd sbon i'r ysgol trwy law cwricwlwm 14-19 Powys. Bydd y bws yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i gario plant yn ôl ac ymlaen rhwng Ysgol bro Hyddgen ac Ysgol Gyfun Penweddig fel rhan o gonsortiwm Trisgel.



Bws mini newydd / New school minibus

Hoffwn ddiolch yn arbennig i Mrs Joni Hughes o Bowys am ei gwaith diflino i sicrhau ein bod yn cael y bws newydd.

Y Siarter Iaith

Da cyhoeddi bod yr ysgol wedi ennill dwy Wobr Efydd y Siarter Iaith y tymor hwn: un am Gymraeg Ail Iaith a'r llall am Gymraeg Iaith Gyntaf (Cymraeg Campus). Mae'n braf iawn derbyn y gydnabyddiaeth hon i'r gwaith beunyddiol a wneir yn yr ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg a gwerth dwyieithrwydd. Diolch i bawb am eu gwaith caled a diolch arbennig i'r Crwi Cymraeg ac i'r Cyngor Ysgol Cynradd.

Y Campws Newydd

Fel yr ydych wedi gweld wrth basio'r caeau'r ysgol, mae'r gwaith paratoi ar gyfer yr ysgol newydd wedi dechrau gyda chwmni DAWNUS yn profi ansawdd y tir (intrusive ground investigation) cyn dechrau adeiladu. Disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau go iawn ym mis Ionawr 2019 a gobeithir bydd yr ysgol newydd yn agor yn Medi 2020.

Canlyniadau Safon Uwch & TGAU

Caiff y canlyniadau Safon Uwch eu rhannu ddydd Iau Awst 16 a TGAU ddydd Iau 23 Awst.

Hoffwn gloi drwy ddiolch yn fawr i'r staff am yr holl waith maent wedi ei gyflawni ac i'r plant am eu hymdredigion rhagorol.

Gobeithio bydd y tywydd braff yma'n parhau ac y cewch wyliau bendigedig.

Dafydd M B Jones

Dear Parent/Carer

Firstly, I would like to thank you for your continued support throughout the year. I feel that we have accomplished a great deal this year.

Staffing

I would like to wish those members of staff who are leaving us at the end of this year the very best of luck. Mrs Sian Calban and Mrs Eluned Besent will be retiring after years of service to the provision of primary education in Machynlleth. Thanks are also due to Mr Alex Roberts and Mr Nic Ross who have been responsible for providing Art, Drama & Media Studies lessons on the secondary school for a number of years. Miss Erin Good has already moved on having been appointed head of the Science Faculty at Ysgol Gyfun Penweddig and Mrs Erian Davies has been seconded to work with ERW.

Miss Iona Davies has been appointed to the post of Leader of the Foundation Phase and Miss Iona Thomas has been appointed to teach Geography and Miss Manon Williams to teach Welsh during Miss Anna Davies's maternity leave. Mrs Catrin Mai Davies will be teaching Drama in the school next year. Mrs Catrin Hughes and Mrs Jane Baraclough will be responsible for teaching Art and Mrs Angharad Elias will teach Media Studies to GCSE level. I would like to wish them all well in their responsibilities and to congratulate Miss Anna Davies on the birth of her son, Owi Mai.

Mini Bus

The school recently acquired a brand new mini bus through the Powys 14-19 Curriculum Programme. It will be used mainly to ferry children between Ysgol Gyfun Penweddig and Bro Hyddgen as part of our Trisgel curriculum partnership. I would like particularly to thank Mrs Joni Hughes from Powys for her unstinting work in securing the new school mini bus.

The Language Charter

It is good to announce the award of two Bronze Prizes in the Language Charter this term: one each for Second Language and First Language (Cymraeg Campus). It is great to receive this accolade for the daily work done at the school in promoting Welsh and the value of being bilingual. Thanks to all for the hard work and especially to the Crwi Cymraeg and the Primary School Council.

The New Campus

As is evident from looking over the school fields, the preparations for the new school have started with DAWNUS being employed in testing the quality of the land (Intrusive ground investigation) before beginning building work which is expected to start for real in January 2019. The new school building should hopefully be ready and open by September 2020.



Ymchwili profi ansawdd y tir cyn dechrau adeiladu / Intrusive ground investigation before the building work begins.

A Level & GCSE Results

The A level results will be published on Thursday 16 August and the GCSE results on Thursday 23 August.

Finally I would like to thank the whole staff for their hard work and all they have accomplished; also to the children for their excellent efforts throughout the year.

I hope that this fantastic weather continues and that you have a great holiday.

Dafydd M B Jones



Letter from the headteacher

3

Ron Lidgett (1931- 2017)

Roedd Ronald Arthur Lidgett yn faciŵ i daeth i Fachynlleth o Ysgol Mersey Park Junior, Birkenhead ym mis Medi 1939 ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd. Cafodd gartref gan Mr a Mrs E Haddon-Roberts, prifathro yr ysgol ar y pryd a'i wraig. Bu Ron yn byw yn Machynlleth tan Orffennaf 1946.

Roedd Ron wrth ei fod yn Machynlleth ac byddai'n hel atgofion ar hyd ei oes am yr amser hapus y cafodd ym Mro Ddyfi. Fe wnaeth barhau i fod yn gyfeillgar gyda Mr a Mrs Haddon-Roberts a daeth i'r amlwg iddyn nhw roi cyfleoedd iddi na fyddai wedi eu cael pe byddai wedi aros ym Mirkenhead.

Aeth Ron Lidgett yn ôl i Birkenhead i gwblhau ei waith ysgol yn 1946 ar ôl cwblhau ei arholiadau CWBSC (Central Welsh Board School Certificate) ym Machynlleth. Yna cafodd ei swydd gyntaf yn gweithio fel technegydd mewn labordy i ICI yn Widnes a Runcorn. Ar ôl y rhyfel rhoddwyd llefydd yn y prif ysgolion i filwyr oedd yn dychwelyd o'r rhyfel. Rhoddwyd pwysau ar Ron gan Mr Haddon-Roberts i fynd i'r brifysgol ym Mangor i astudio Cemeg. Ar ôl graddio aeth i weithio yn Winscale yn Cumbria ac i Monsanto yn Rhiwabon yn 1958 ac yn ddiweddarach aeth i weithio i Wlad Belg yn 1973 nes iddo ddychwelyd i Gymru yn 1986.

Roedd Ron Lidgett yn sôn yn aml am ei gyfnod cofiadwy yn Machynlleth: roedd yn cofio teithiau beicio i Blumlumon ac i ben Aran Fawddwy; nofio a physgota yn y Ddyfi a'r Dulas. Er mai ond am 6 mlynedd y buodd yn byw yn yr ardal, roedd ganddo atgofion melys o'r ardal.

Bu farw Mr Lidgett yn 2017 a gadawodd £1000 i'r ysgol. Dyma lun o'i wraig Mrs Jill Lidgett a'u mab yn cyflwyno'r siec i mi. Hefyd gwelir llun ohono tra roedd yn yr ysgol a llun o Mr a Mrs Haddon-Roberts oedd mor gyfeillgar tua ato. Mae'r ysgol yn ddiolchgar iawn i'w deulu am eu caredigrwydd ac am rannu stori mor ddiddorol â ni.



Mr Ronald Lidgett yn ei ddyddiau ysgol / Mr Ronald Lidgett in his school days.

Ronald Arthur Lidgett (1931- 2017)

Ronald Arthur Lidgett was evacuated to Machynlleth from Mersey Park Junior school, Birkenhead in September 1939 at the start of World War 2 and was taken in by Mr and Mrs E Haddon – Roberts, the then headmaster of the Machynlleth County school and his wife. Here Ron remained for the remainder of the war until he finally returned home in July 1946.

Ron loved his years in Machynlleth and the memories remained with him for the rest of his life, as did his relationship with Mr and Mrs Haddon-Roberts who provided him with a loving home and opportunities he would not have had, had he remained in Birkenhead. They also encouraged him with his studies.

After leaving Machynlleth in 1946 after taking his Central Welsh Board School Certificate, Ron returned to Birkenhead to complete his Highers. This was followed by his first job as a lab technician working with ICI at Widnes and Runcorn. After the war, places at university were given to returning military personnel so Ron did not immediately further his education, but being pushed by Mr Haddon – Roberts, he secured a place at Bangor University to study Chemistry.

From here he went on to do his National Service and working for the Atomic Energy commission at Winscale in Cumbria, he then was employed by Monsanto in Rhiwabon. He moved to work in 1973 to Belgium for Monsanto before moving back to Llangollen in 1986.

He often reminisced of his time in Machynlleth, his school friends, the swimming and fishing in the Dyfi and Dulas, cycling trips with school to Pumlumon and Aran Mawddwy and camping in the countryside around Machynlleth. Although only 6 years, this was a period of his life he fondly remembered.



Mr and Mrs Haddon-Roberts

Mr Lidgett passed away in 2017 and left the school £1000 in his will. Pictured are Mrs Jill Lidgett and her son presenting a cheque to Mr Dafydd Jones. Also, a picture of Ron during his time in school in Machynlleth and of Mr and Mrs E Haddon-Roberts who were so kind to him.

The school would like to thank Ron's family for their kindness and for sharing such an interesting story.




Mrs Jill Lidgett a'i mab yn cyflwyno'r siec / Mrs Jill Lidgett and her son presenting the cheque



4

Gwaith Celf BL6 Wythnos Trosglwyddo



Bu BL6 yn brysur yn arbrofi gyda 'monoprints' yn eu gwersi Celf yn ystod yr wythnos trosglwyddo.

Yr 6 were very busy experimenting with monoprints in their Art lessons during transition week



Dyddiadau Pwysig / Important Dates

5

Canlyniadau Lefel A /AS Results	16/08/2018
Canlyniadau TGAU/GCSE Results	23/08/2018
Diwrnod ddi-disgybl/Non Pupil Day	3 + 4 Medi/September 2018
Diwrnod Cynta'r Tymor/First day of Term	5 Medi/September 2018
Hanner Tymor / Half Term	29/10/18—2/11/18
Arholiadau allanol TGAU Mathemateg, Saesneg a Chymraeg / GCSE External Exams Maths, English and Welsh	5/11/18—14/11/18
Diwrnod ola'r tymor/last day of term	21/12/18
Diwrnod di-disgybl/Non pupil day	07/01/19
Diwrnod cynta'r tymor / First day of term	08/01/19

Trip i Lyfrgell Genedlaethol Cymru i weld Arddangosfa Kyffin

Braint oedd cael y cyfle i weld rhai o weithiau artistiaid enwocaf Cymru yn agos, gyda Siani Rhys James ymyst y darnau a welsom. Mae'n hawdd anghofio pa mor drawiadol yw celf ein gwlad, yn enwedig pan yr ydych yn gweld effaith 'impasto' Kyffin dros eich hunain mewn oriel - yn lle mewn llun gwastad. Diolchaf yn fawr i'r Llyfrgell Genedlaethol am y cyfle ac am ateb ymholaethau.

It was a privilege to be able to see the work of some of the most famous and talented artists in Wales up close with Siani Rhys James one of the artist in the collection. It is easy to forget how striking art is in our country, especially when you look at the effect of the "impasto" Kyffin yourself in a gallery rather than a flat image. Thank you to the national library for the opportunity, and for answering our questions.

Cerys Roberts, disgybl Bl12 Celf, Ysgol Bro Hyddgen



Adeilad Ysgol Newydd



Mae'r broses ymgynghoriad i adolygu a chytuno'r dyluniad a chynlluniau'r safle ysgol wedi cychwyn.

Mae CS Powys, HOWPS, Dawnus ac Architype wedi cynnal sesiynau dyluniad cychwynnol gyda'r plant, staff, tîm arwain a hefyd y llywodraethwyr,

Bu Lee a Suzanna o Architype yn disgrifio yn angerddol sut fydd yr adeilad yn cael ei gynnllunio i dyfu gyda'r plant; lle maen nhw yn cychwyn eu siwrne addysg yn y dosbarthiadau derbyn ac yn symud ymlaen ar draws yr adeilad o ffes i ffes wrth dyfu gan orffen yn y 6ed dosbarth ar y ail lawr.

Roedd safon yr adborth yn gynhyrchiol, yn arbennig gan y plant ysgol a oedd yn edrych ymlaen at fod yn rhan o'r broses a rhoi cwestiynau heriol a oedd ag ôl meddwl arnynt i'r tîm dylunio.

Mae'r Cyngor Sir yn gweithio gyda'r pensaer i fewnbynnu gymaint o'r adborth sydd yn bosib i'r draft nesaf o'r cynlluniau. Mae'r dyluniad yn cael ei gyflwyno nôl i'r ysgol eto yn fuan a hefyd sesiynau agored yn cael eu trefnu i rieni a'r gymuned.

The consultation process to review and agree the initial designs and site plans for the new school has commenced.

Powys CC, HOWPS, Dawnus and Architype have held initial design sessions with pupils, staff, school senior management team and with the governors.

Lee and Suzanna from Architype passionately described how the building is designed to grow with the pupils; how the pupils start their educational journey at the early year's class bases on the ground floor, and then progress through the phases around the building and finish their school journey at 6th form on the second floor.

Fantastic feedback was received, especially from the school pupils, who were all very excited to be part of the process and put some challenging and well thought out questions to the design team.

The authority is now working with the architects to incorporate as many comments as possible into the revised drawings. The designs will be presented to the school again at a later date and 'drop-in events' will be arranged for parents and the local community soon.



Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools



Betsan Ifan

Rheolwr Rhaglen Trawsnewid Ysgolion / Schools Transformation Programme Manager

Cyngor Sir Powys / Powys County Council

Ebost/Email: Betsan.Ifan@powys.gov.uk



Capital Build Project Update

7



8 Presenoldeb / Attendance

Gwyliau / Absenoldeb yn ystod amser tymor.

Rydym yn awyddus i weld pob plentyn yng Nghymru'n llwyddo. Gan hynny mae'n bwysig bod rhieni'n gwneud eu gorau glas i helpu disgylion i ddod i'r ysgol am y 190 diwrnod llawn mewn blwyddyn academaidd, yn ôl Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Diwygiad) 2006.

O dan y Ddeddf Addysg (1996), cyfrifoldeb y rhiant neu'r gofalwr yw sicrhau bod eu mab neu eu merch yn mynchy'r ysgol. Mae presenoldeb rheolaidd yn hanfodol bwysig ac mae colli'r ysgol yn gallu cael effaith favr ar gyflawniad dros flwyddyn fel mae'r grid isod yn ei ddangos:

Presenoldeb 95-100%	Cyfreithioldeb o llwyddo	Mae'ch plentyn yn manteisio'n llawn ar bob cyfreithioldeb dysgu.
Presenoldeb 90-95%	Mae'ch plentyn wedi colli o leiaf dwy wythnos o ddysgu	Boddhaol. Efallai y bydd rhaid i'ch plentyn dreulio amser yn dal i fyny gyda gwaith.
Presenoldeb 85-90%	Mae'ch plentyn wedi colli o leiaf pedair wythnos o ddysgu	Gall eich plentyn fod mewn pergl o dangyflawni ac efallai i chi roi help i'ch plentyn i ddal i fyny gyda'u gwaith
Presenoldeb 80-85%	Mae'ch plentyn wedi colli pum wythnos a hanner o ddysgu	Mae presenoldeb gwael yn effeithio'n sylwedol ar ddysgu'ch plentyn.
Presenoldeb o dan 80%	Mae'ch plentyn wedi colli saith wythnos a hanner o ddysgu	Mae'ch plentyn yn colli allan ar addysg eang a chytbwys. Rydych chi mewn pergl o gael eich erlyn.

Gobeithio y byddwch chi'n gallu cefnogi'r polisi hwn a threfnu gwyliau y tu allan i amser tymor. Mae'r ysgol ar gau am 175 diwrnod mewn blwyddyn os ydych chi'n cyfrif penwythnosau a gwyliau ysgol. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod eich plentyn yn llwyddo yn yr ysgol.

Serch hyn, os bydd amgylchiadau'n codi sy'n golygu bod rhaid i chi gymryd gwyliau yn ystod y tymor, rydym yn gofyn i chi lenwi'r ffurflen ar ochr arall y llythyr hwn a'i hanfon yn ôl i'r ysgol at sylw'r penneth.

Ffurflen Gwneud Cais am Wyliau

Os ydych chi'n dymuno mynd â'ch plentyn neu'ch plant ar wyliau yn ystod amser tymor rhaid i chi lenwi'r ffurflen isod o leiaf 28 diwrnod cyn mynd i ffwrdd. Wedyn byddwn ni'n ystyried eich cais.

Mae Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgylion) (Cymru) 2010 yn rhoi grym dewisol i benaethiaid i adael i deulu gymryd gwyliau yn ystod amser tymor lle mae rhieni'n gofyn caniatâd. Ar wahân i amgylchiadau arbennig, fyddan nhw ddim yn caniatáu mwy na deg diwrnod o wyliau. Yn yr ysgol hon byddwn yn ystyried yr agweddau canlynol cyn penderfynu caniatáu gwyliau yn ystod amser tymor.

- Ffigyrâu presenoldeb ar gyfer y flwyddyn flaenorol. (Byddwn yn disgwyl i bresenoldeb fod yn uwch na 90 y cant.)
- Ymddygiad ac agwedd tuag at fywyd ysgol.
- Nad yw'r gwyliau'n torri ar draws cyfnodau dysgu pwysig rydym wedi tynnu'u'r sylw atyn nhw (fel asesiadau ddiweddu y flwyddyn sy'n digwydd ym mis Mai bob blwyddyn).
- Eich bod yn llenwi'r ffurflen hon yn gywir a chyflwyno cais 28 diwrnod cyn y gwyliau.

Y Pennaeth yn unig sydd biau'r dewis i ganiatáu gwyliau fel y bydd yn gweld yn dda.

Byddwn yn gwneud cais i roi Hysbysiad Cosb Benodedig os byddwn yn cofnodi pum diwrnod neu fwy (deg sesiwn) o 'absenoldeb heb awdurdod' a bod presenoldeb o dan 90 y cant ar gyfer y flwyddyn academaidd hyd yn hyn.

Byddwn yn anfon bonyn caniatáu / gwrthod caniatáu atoch chi o fewn saith diwrnod ar ôl i ni dderbyn eich cais



Presenoldeb / Attendance



Holidays / Absence during term time.

In Wales we want all of our pupils to achieve success, so it is important that parents do their best to support pupils in attending school for the full 190 days in an academic year, as stated in the Education (School Day and School Year) (Wales) (Amendment) Regulations 2006.

Under the Education Act (1996), it is the responsibility of the parent or carer to ensure that their son/daughter attend school. Regular school attendance is vital and missing school can have a significant impact on achievement over a one year period as illustrated below:

95-100% attendance	Best chance of success	Your child is taking full advantage of every learning opportunity.
90-95% attendance	At least 2 weeks of learning missed	Satisfactory. Your child may have to spend time catching up with work.
85-90% attendance	At least 4 weeks of learning missed	Your child may be at risk of under-achieving and may need extra support from you to catch up with work.
80-85% attendance	At least 5 ½ weeks of learning missed	Your child's poor attendance has a significant impact on learning.
Below 80% attendance	At least 7½ weeks of learning missed	Your child is missing out on a broad and balanced education. You are at risk of prosecution.

We hope that you can support this policy and arrange your holidays around the existing 175 days the schools are closed through weekends and school holidays and help us support your child in achieving success in school.

If, however, there are circumstances that mean you have to take a holiday during term time, we ask that you fill in the form on the reverse of this letter and return to school for the attention of the head teacher.

Holiday Request Form

If you wish to take your child/ren on a holiday during term time, the form below must be completed at least 28 days before the absence is required to be considered for authorisation.

The Pupil Registration (Wales) Regulations 2010 provide head teachers with a discretionary power to authorise leave for a family holiday during term time where parents seek permission. Save in exceptional circumstances, no more than 10 days leave should be granted for this purpose. The procedure at this school is that all the factors noted below will be taken into consideration before a decision is made as to whether to authorise any periods of holiday requested during term time.

- Attendance figures for the last year. (We would expect attendance to be above 90%).
- Behaviour and attitude to school life.
- That the holiday does not impact on any key periods of learning identified and highlighted by the school (such as the end of year pupil assessments carried out during the month of May each year).
- That this form has been completed correctly and the request has been made 28 days before the holiday.

Please therefore remember that holidays can only be authorised at the Head Teacher's discretion.

It should also be noted that an application for a 'Fixed Penalty Notice' will be considered if there are 5 or more days (10 sessions) of 'unauthorised absence' recorded, in addition to the attendance level being below 90% for the school year to date.

An authorised / unauthorised slip will be sent back to you within 7 days of submitting this request.



Artistiaid Ieuanc Talentog a Criw Celf Oriel Davies

10

Yr artistiaid ifanc wrth eu gwaith.

KS3 pupils alongside their art work



Cynhaliwyd gweithdy celf diwrnod o hyd ar Fawrth 15fed gydag Adran celf Ysgol Bro Hyddgen a hynny o dan ofal Mrs Catrin Hughes a Mrs Jane Barracough. Bu grwp bach o ddysgwyr bl6 hyd at y 6ed dosbarth hefo'r artistiaid, Amy Sterly a Helen Kozich. Roedd hyn yn rhan o brosiect Criw Celf Oriel Davies ac yn gyfle i'r artistiaid ieuanc sy'n fwy abl a thalentog mewn Celf gyfarfod hefo, a chydweithio hefo artistiaid proffesiynol. Mae Criw Celf Oriel Davies yn cael ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'i gefnogi gan Gyngor Sir Powys.

Yn ystod y gweithdy bu'r artistiaid ieuanc yn cydweithio i ddatblygu syniadau ar amrywiaeth o themâu, fel 'o dan y môr', 'y tymhorau', 'Machynlleth', cloc y Dre' a 'natur' yna aethant ymlaen i weithio mewn grwpiau i greu gweithiau celf gan weithio hefo defnyddiau wedi eu hailgylchu. Mae'r gweithiau celf dychmygol a hynod greadigol erbyn hyn wedi cael eu harddangos yn Neuadd yr ysgol - ac yn edrych yn drawiadol iawn!

Yn dilyn y gweithdy dywedodd Mrs Catrin Hughes, athrawes yn yr Adran Gelf, "Roedd y prosiect yn llwyddiant mawr ac yn brofiad gwerthfawr iawn i'r dysgwyr talentog yma, ac mae'r gweithiau celf bendigedig yn ychwanegu at amgylchedd yr ysgol. Mae Criw Celf Oriel Davies yn brosiect gwych ac ryden ni wedi bod wrth ein boddau'n gweithio hefo nhw ar y prosiect yma. Gobeithio bydd rhai o'r dysgwyr yma yn gwneud cais i fod yn aeoldau o'r prosiect pan ddaw'r manylion ymgeisio allan yn y gwanwyn."

Mae Criw Celf Oriel Davies yn brosiect sy'n meithrin talent ieuanc yn y celfyddydau gweledol, gyda gweithdai hefo artistiaid ac ymweliadau i arddangosfeydd ac i Adran Celf Gain Prifysgol Caer. Bwriad y prosiect yw i gyflwyno sgiliau newydd a phrofiadau newydd ac i hybu hyder yr artistiaid ieuanc. Mae'r prosiect yn cael ei gydlynú gan Bethan Page ar ran Oriel Davies.

Cewch ragor o wybodaeth am Griw Celf yn <http://www.oriel davies.org/cy/criw-celf> neu cysylltwch ag Oriel Davies drwy ebost: desk@oriel davies.org neu ffôn 01686 625 041.

Global opportunity and citizenship

Thank you Mr Tim Penn for talking about global opportunity and citizenship with communication skills whether you want to be a carpenter, an art dealer, a sportsman, an engineering, law, or a physiotherapist with our students on Friday

13/7/2018.



Criw Celf Oriel Davies Art Workshop

11



Ysgol Bro Hyddgen's Art Department, under the supervision of Mrs Catrin Hughes and Mrs Jane Barracough, hosted a full-day collaborative Art workshop on 15 April for a small number of KS3 pupils involving artists Amy Sterly Helen Kozich. This was part of a Criw Celf Oriel Davies project and was an opportunity for the school's more able and talented young artists to meet and work with professional artists. The project was funded by the Arts Council of Wales and supported by Powys County Council.

The workshop involved developing ideas on various themes including under the sea, seasons, in the sky, cultures of the world and pollution and using recycled materials to create an installation artwork. The fantastically creative and colourful outcomes are being exhibited in the school's main Hall.

Following the workshop Mrs Catrin Hughes, said "The project was an immense success and a very enriching experience for the pupils involved. The artistic outcome really adds to the environ-

ment at Ysgol Bro Hyddgen. Criw Celf Oriel Davies is an excellent project and we were delighted to work with them to host it. We hope that many of the pupils who took part today will apply for a place on the Criw Celf Oriel Davies project when applications open in the Spring".

Criw Celf Oriel Davies is a project to nurture young talented in the visual arts involving workshops with artists and visits to exhibitions and Chester University Fine Art Department. The aim of the project is to introduce new skills and experience and develop the participants' confidence. The project is co-ordinated by Bethan Page for Oriel Davies.

Further information on Criw Celf Oriel Davies can be found at <http://www.orieldavies.org/en/criw-celf> or contact Oriel Davies by email: desk@orieldavies.org or phone 01686 625 041.

Gwobr Efydd Cymraeg Ail Iaith

Mae'r Campws Cynradd yn falch o gyhoeddi eu bod wedi ennill Gwobr Efydd Cymraeg Ail Iaith!

The Primary Campus are proud to have won the Welsh 2nd Language Bronze Award



12

Diwrnod Trosglwyddo Blwyddyn 6



Braf oedd cael croesawu blwyddyn 6 i'r campws uwchradd ar gyfer yr wythnos trosglwyddo'r tymor hwn. Cafwyd blas ar amrywiaeth o wahanol bynciau sydd gan y campws uwchradd i'w gynnig o weithgareddau chwaraeon, diwrnod Technoleg, diwrnod rhifedd, llythrennedd a llawer mwy. Roedd yr wythnos yn hynod lwyddiannus gan fod pawb wedi creu ffrindiau newydd sydd yn y flwyddyn ac wedi dod yn fwy cyfarwydd â'r campws uwchradd. Rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu chi i gyd yma ym mis Medi!

It was very nice to welcome year 6 for their secondary transition week this term. They enjoyed a whole range of subjects that the secondary campus had to offer from sporting activities, a Technology day, numeracy and literacy day and many more. The week was a success with all of the year 6 students making new friends in their year and getting to know the school better. We look forward to welcoming you all here in September!



Mabolgampau'r Campws Cynradd / Primary Campus Sports Day

13

Mabolgampau'r Cyfnod Sylfaen a CA2*Foundation and KS2 sports day***Mabolgampau'r Cyfnod Sylfaen**

Cynhaliwyd prynhawn o fabolgampau hwyllog i blant y Cyfnod Sylfaen ddydd Mawrth, 19 Mehefin, gyda phob un plentyn yn cael cyfle i gymryd rhan mewn rasys amrywiol: rhedeg, neidio mewn sach, âw ar lwy a bag ffa ar y pen. Hoffai'r ysgol ddioch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am ddarparu lluniaeth ysgafn yn ystod y ddau fabolgampau.

Mabolgampau CA2 a Ffarwelio â Mrs Carys Jones

Cynhaliwyd mabolgampau CA2 yng ngwres yr haul brynhawn dydd Mawrth, 26 Mehefin. Cafwyd cystadlu brwd rhwng y pedwar tîm drwy gydol y prynhawn. Y tîm buddugol eleni oedd tîm Dyfi, gyda tîm Crewi yn cipio'r ail safle, Llyfnant yn drydydd a Dulas yn bedwerydd. Cyflwynwyd y tlws i'r tîm buddugol gan Mrs Carys Jones sydd bellach wedi ffarwelio â'r Campws yn dilyn 10 mlynedd o wasanaeth diflino fel gweinyddwr. Dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd fel swyddog Marchnata i'r Mudiad Ysgolion Meithrin.

Foundation phase sports day

A fun sport's day afternoon was held on the 19th June with each pupil getting a chance to take part in a range of competitions.

KS2 Sports day and saying good-bye to Mrs Carys Jones

The KS2 sport's day was held in the sunny afternoon of June 26th. A healthy competitive spirit was seen between the 4 teams throughout the afternoon. The winning team this year was team Dyfi with the Crewi team coming in second place. The trophy to the winning team was presented by Mrs Carys Jones who has recently left the primary campus after 10 tireless years of working in the primary office. We wish her well in her new role as marketing officer for the Mudiad Ysgolion Meithrin.

The school would like to thank the PTA for their help with dispensing refreshments on both days.



14

Disgyblion Cerddorol / Musical Pupils



Am gyfle!

Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, bu nifer o ddisgyblion Bro Hyddgen yn cyd-berfformio gydag aelodau Cerddorfa Siambwr Y Sinfonia Gymreig mewn cyngerdd Crescendo dan arweiniad yr arweinydd Rhyngwladol Mark Eager. Trwy gyfrwng y prosiect cynhyrhus hwn, mae deunaw aelod o'r gerddorfa yn gweithio'n agos gyda chwaraewyr cerddorfaol ifanc a chorau ysgolion, gan drefnu cyngherddau er mwyn cyflwyno'r disgyblion i bleser perfformio mewn ensemble mawr drwy repertoire difrifol ond cyraeddadwy.

Yn ogystal â rhoi cyfle i'n hofferynwyr ifanc gyd-berfformio gyda'r gerddorfa, cafwyd amrywiaeth o eitemau offerynnol a lleisiol, nifer ohonynt i gyfeiliant y gerddorfa – yn eu plith eitemau gan Mared Jones, Gruffydd Behnan, Malen Meredydd Aeron, Begw Tomos, Cerys Hickman, Owen Kimpton, Celt John, Lewys Meredydd Siencyn, aelodau Swynol sef Tegan Roberts, Glain Lewis ac Alaw Jones ynghyd â chorau Cerdd Dant Iau a Hŷn yr ysgol.

Yn sicr, bu'r cyngerdd yn llwyddiant ysgubol, a derbyniodd ein disgyblion ganmoliaeth uchel am safon broffesional eu perfformiadau. Diolch yn fawr iddynt am eu gwaith caled ac am gynrychioli ein hysgol mor dda. Mae eu hathrawes, Llio James, yn gwerthfawrogi eu hymroddiad yn fawr. Diolch hefyd i'r athrawon teithiol Mr Jean Louis Rimbaud, Mrs Sally Marshall a Mr Steffan Jones am eu cefnogaeth ddiflino, ac i Mr Tudur Jones am ei gymorth gyda'r cyfeilio.

What an opportunity!

For the fourth consecutive year, young Bro Hyddgen instrumentalists and singers had the pleasure of performing with members of the Welsh Sinfonia Chamber Orchestra in a Crescendo concert conducted by the international conductor Mark Eager. Crescendo involves eighteen members of the orchestra working closely with young orchestral players and school choirs, putting on local concerts to introduce them to the joy of performing in large ensembles, through serious but accessible repertoire


As well as presenting an opportunity for our pupils to perform with the orchestra, many Bro Hyddgen soloists and ensembles delighted the audience with performances to orchestral accompaniment – Mared Jones, Gruffydd Behnan, Malen Meredydd Aeron, Begw Tomos, Cerys Hickman, Owen Kimpton, Celt John, Lewys Meredydd Siencyn, vocal ensemble Swynol - Tegan Roberts, Glain Lewis and Alaw Jones, and also the junior and senior Cerdd Dant choirs.

The concert was a resounding success, with the pupils receiving high praise for the professional standard of their performances. Many thanks to the pupils for their hard work and for representing our school so well. Their Music teacher Llio James appreciates their commitment. Thanks also to the peripatetic staff Mr Jean Louis Rimbaud, Mrs Sally Marshall and Mr Steffan Jones for their continued support, and to Mr Tudur Jones for helping with the accompaniment.



Newyddion o'r Cyfnod Sylfaen

15

 <p>Elin</p> <p>Rydw i yn hoffi lego. <i>I like lego.</i></p>	 <p>Finley</p> <p>Rydw i yn hoffi bod tu fas gyda fy ffrindiau. <i>I like being outside with my friends.</i></p>	 <p>Geraint</p> <p>Rydw i yn hoffi peintio. <i>I like painting.</i></p>
 <p>Hattie</p> <p>Rydw i yn mwynhau bod ar y beic. <i>I like being on the bike.</i></p>	 <p>Rosa</p> <p>Rydw i yn hoffi chwarae yn y tywod. <i>I enjoy playing in the sand pit.</i></p>	 <p>Zachary</p> <p>Rydw i yn mwynhau adeiladu yn y cornel adeiladu. <i>I like building in the construction area.</i></p>



16 Dawns Diwedd Blwyddyn 11



Nos Iau, Mehefn 21, cafwyd prom hynod lwyddiannus ar y campws uwchradd wrth i ni fel ysgol ffarwelio gyda Blwyddyn 11 am y tro olaf. Roedd y disgublions oll wedi gwisgo'n smart ac ambell un yn cyraedd yr ysgol mewn steil! Cafwyd gwledd yn y neuadd gan gofio am yr amseroedd da a gafwyd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Cyflwynwyd gwobrau i'r disgublions hynny am eu hamrywio ymdrechion hefyd.

Diolch yn fawr i bawb am eu gwaith trefnu a dymuniadau gorau i flwyddyn 11 yn y dyfodol gan edrych ymlaen at groesawu nifer helaeth ohonoch yn ôl i'r chweched dosbarth ym mis Medi.



Year 11 Leavers Ball

17



Thursday evening June 21st the school held the annual Year 11 Prom and once again it was a resounding success. We said farewell to our Year 11 for the last time. All the pupils were dressed to impress and one or two arrived in style! We had a wonderful time in the school hall while remembering the good memories created over the past five years. Awards were given out during the evening for the pupil's efforts over the years.

Thank you to everyone who contributed making this event incredibly successful. We wish the best to year 11 in the future and we look forward in welcoming the majority back into the sixth form in September.



18 Dawns Diwedd Blwyddyn 11



Year 11 Leavers Ball

19



20

Gwefannau ac Apps defnyddiol ar gyfer datblygu rhifedd

Question 2

$84 \div 7 = 12$

Minutes: 5, 4, 3, 2, 1, 0

Division Level 2

Main


Who wants to be a Mathionaire?

1,000,000
500,000
250,000
125,000
64,000
32,000
16,000
8,000
4,000
2,000
1,000
500
200
100

45 — 12 =
(Question by Nathalie)

A 33 B 12
C 23 D 43

50:50
Take 0




Backed by research

Kids playing our game improved:

- 15% in fraction estimation
- 10% in math attitudes

[Learn more](#)



Er mwyn cynnig rhagor o gymorth i ddatblygu sgiliau rhifedd ein disgylion, rydym yn eu hannog i wneud defnydd o rifedd y tu allan i'r ysgol. Dyma wefannau ac Apps rhifedd defnyddiol y gall disgylion eu defnyddio i ddatblygu eu sgiliau rhif ynghyd â'r hyn sydd yn digwydd yn yr ysgol.

Bedtime Math

Mae'r cwestiynau ar *bedtime math* yn cael eu gofyn ar ffurf ysgrifenedig a rhaid i'r plentyn ddehongl i'r cwestiwn a darganfod y swm sydd angen i'w ateb. Mae'r cwestiynau hefyd wedi eu gwahaniaethu ar gyfer disgylion gallu isel, canolig a disgylion gallu uchel. Mae'r cwestiynau yn newid yn ddyddiol.

Brainist Math Games

Mae'r wefan *Brainist Math Games* yn wefan wych ar gyfer datblygu mathemateg pen disgylion. Mae'n cynnwys cwestiynau lloosi, rhannu adio a thynnu. Nod y gêm yw ateb cyfres o gwestiynau mewn cyn lleied o amser ag sy'n bosib.

Gwefan sydd yn cynnwys llawer o adnoddau adolygu TGAU Mathemateg gan gynnwys *Who wants to be a Millionaire*, gêm a fydd yn ennyn diddordeb plant ac yn datblygu eu sgiliau rhif.

Motion Math

App defnyddiol ar gyfer datblygu rhif sydd yn cynnwys nifer o gemau gwahanol sydd yn hwyl i blant. Mae'r App gyda ffocws ar ddatblygu ffracsiynau ac mae'n dweud bod defnyddio'r App yma yn gwella ffracsiynau plentyn 15% ac agwedd plant tuag at fathemateg o 10%. Mae'r App yma yn ddefnyddiol i blant 2016 gan fwyafrif ohonynt fynediad i wahanol ffurf o'u defnyddio e.e. ffôn symudol, i-pods ar i-pads a.y.b.



Useful websites and Apps for developing numeracy skills

21

To further develop the numeracy skills of our pupils, we encourage them to make use of numeracy outside school hours. These are some useful Numeracy websites and Apps that pupils can use to develop their numeracy skills along with what is going on at school.

Bedtime Math

The questions on bedtime math are asked in a written format which requires the pupil to interpret the question and work out the sum needed to answer the question. The questions are differentiated for pupils of lower, medium and high ability learners. The question also changes daily.

Brainist Math Games

The 'Brainist Math Games' is an excellent website for developing mental maths. It's includes multiplications, division, addition and subtracting questions. The objective of the game it to answer a series of questions as quickly as possible.

A website that includes a number of revision resources for GCSE Mathematics including 'Who Wants to be a Millionaire' a game that will interest children and develop their numeracy skills.

Motion Math

A useful App for developing numeracy skills as it includes a number of games that are fun for children. The App is focused on developing fractions; they claim that the use of this App improves their fractions by 15% and children's attitude towards mathematics by 10%. Apps are useful for children of 2016 as many of them have access to different ways of using Apps such as mobile phones, i-pods and i-pads etc.

Question 2

Minutes 5
4
3
2
1
0

84 ÷ 7 = 12

Division Level 2

Who wants to be a Mathionaire?


1,000,000
500,000
250,000
125,000
64,000
32,000
16,000
8,000
4,000
2,000
1,000
500
200
100

50:50

Take 0


45 — 12 =
(Question by Nathaniel)

A 33 B 12
C 23 D 43



Backed by research
Kids playing our game improved:
• 15% in fraction estimation
• 10% in math attitudes

[Learn more](#)



22

Ffarwelio gyda Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13



Dymunwn yn dda iawn i'r disgylion hynny sy'n ein gadael ni am y tro olaf gan ddymuno pob llwyddiant i chi gyd yn y dyfodol.

We wish all our students every success for the future.


Roedd hi'n braf iawn dathlu a hel atgofion yng nghwmni myfyrwyr Bro Hyddgen sy'n ffarwelio â ni am y tro olaf eleni. Mae nifer helaeth o flwyddyn 13 yn gobeithio camu 'mlaen i addysg bellach mewn prifysgolion ar hyd a lled y wlad gyda nifer fawr o flwyddyn 11 yn dychwelyd i'r chweched dosbarth ym mis Medi. Dymunwn yn dda iawn i'r disgylion hynny sy'n ein gadael ni am y tro olaf gan ddymuno pob llwyddiant i chi gyd yn y dyfodol. Cofiwch alw heibio o dro i dro er mwyn i ni glywed eich hanesion chi.

It is always enjoyable to reflect on time spent at Bro Hyddgen and recently we bid farewell to many students who are leaving us this summer. Many Year 13 students are venturing onwards to study at higher education universities across the UK and many year 11 students are returning to the sixth form. We wish all our students every success for the future in what ever endeavour they follow.



Gorsaf Dywydd / Weather Station

23



Mae'r orsaf dywydd yn y campws uwcrhadd wedi bod yn hynod o ddiddorol dros y tymor yma efo'r tywydd poeth rydym wedi ei gael.

Be am i chi gadw trac ar y tywydd drwy ddevis y linc ar waelod gwefan yr ysgol neu drwy sganio'r "QR" cod yma?

The weather station in the secondary campus has been very interesting this term with the warm weather we have had.

Why not keep track of the local weather by selecting the link on the bottom of the school website ,or by scanning this QR code?



<https://app.weathercloud.net/d0097607461#current>

Daily Post School Awards

Am y pedwerydd tro'n olynol, enwebwyd yr ysgol yn y gystadleuaeth Daily Post a hynny'n y categori 'Cyfathrebu'. Mae'r categori hwn yn amlygu dulliau effeithiol ysgolion i gyfathrebu gyda'r cartref a'r gymuned. Roedd hi'n braff iawn clywed canmmol unwaith eto i Ein Bro a gwefan yr ysgol.

For the forth time the school was successful in being shortlisted for the best communication award with our school website and newspaper. Unfortunately, we were not successful in winning this year but thankful for the opportunity to show the good work the school does.



@brohyddgen



24

'Symud Ymlaen' – Ymweliad y Parch. Miriam Beercroft

'Symud Ymlaen' – Ymweliad y Parch. Miriam Beercroft

Rev Miriam Beercroft's visit

'Symud Ymlaen': Ymweliad y Parch. Miriam Beercroft

Brynhawn dydd Mercher, 27 Mehefin, croesawyd y Parch. Miriam Beercroft i'r ysgol i gynnal gweithdy gyda disgyblion Blwyddyn 6. Thema'r sesiwn oedd 'symud ymlaen', ac roedd yn gyfle i'r disgyblion fyfyrion ar y profiadau da y maent wedi eu cael yn ystod eu cyfnod ar y Campws Cynradd trwy wneud 'jar atgofion'. Cafwyd stori yn ogystal â chyfle i rannu pryderon a gobeithion am y dyfodol wrth iddynt symud mlaen i flwyddyn 7. Diolch i'r Parch. Miriam Beercroft am y profiad.



'Moving on': Rev Miriam Beercroft's visit

On Wednesday 27 June, we welcomed the Rev Miriam Beercroft to the school for Year 6 a workshop on the theme of 'moving on'. During the session, pupils reflected on all the memories they have of their time on the primary campus and created a memory jar. They also listened to a story from the Bible and shared some of their worries and hopes for their future as they move on to Year 7. Thank you to Rev. Beercroft for the experience.

Beth yw llygredd plastig? / What is plastic pollution?

Ar ddiwedd y tymor diwethaf, cyflwynodd y prif ddisgyblion wasanaethau ar ddau gampws yr ysgol yn egluro beth yw llygredd plastig, ac hefyd arddangoswyd achosion ac effeithiau'r broblem amgylcheddol ddifrifol hon. Yna, yn dilyn cydnabod a thrafod maint y broblem, ac hefyd adnabod bod cyfrifoldeb gan bob un ohonom ar draws cymuned yr ysgol i ystyried a cheisio lleihau ein defnydd o blastig, aethpwyd ati fel ysgol gyfan (campws cynradd ac uwchradd) i lofnodi'r ddeiseb "Gwaredu Plastig". Mae'r Cyngor yr Ysgol yn gyson yn nodi eu bod yn awyddus iawn i gefnogi gweithgareddau cymunedol, ac yn awyddus i fynd ati i gefnogi gweithgaredd fel hyn sydd o fudd i'r gymuned heddiw, ac i'w dyfodol.

At the end of last term, the head pupils presented an assembly on both campuses explaining what plastic pollution is; they also showed some of the causes and consequences of plastic pollution. A discussion followed this. It was decided that all of us within the school community has a responsibility to try and reduce the use of plastic. All members of both campuses were given the opportunity to sign the "Clean Up Plastic" petition which aims for Machynlleth to be plastic free. The School Council regularly notes that they're enthusiastic supporters of community activities, and this is an excellent example of the school working very effectively as part of the community.



United Kingdom Mathematics Trust (UKMT)

25



Tystysgrifau Efydd ac arian am fentro i'r 20% a'r 40% uchaf ym Mhrydain!

Bronze and Silver Certificates for the top 20% and 40% in the UK!

UKMT Junior Mathematical Challenge

Ym mis Ebrill, bu 37 o blant blynnyddoedd 7 ac 8 yn cymryd rhan yn yr Her Mathemateg UKMT. Roedd dros 260,000 o blant yn cystadlu o bob cwr o Brydain. Derbyniodd dri disgylbwyr, Kaleb Wells, Manon Russell a Seren Overton Jones, dystysgrif efydd a gyflwynwyd i'r disgylbwyr a oedd wedi mentro i'r 20% uchaf.

Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw ac i bawb fu'n cymryd rhan.

In April 37 pupils from years 7 and 8 took part in the UKMT Junior Mathematical Challenge. Over 260,000 pupils from across the UK sat the Junior Maths Challenge. Three pupils, Kaleb Wells, Manon Russell and Seren Overton Jones received a Bronze Certificate which was awarded to the top 20% nationally. Many congratulations to them and to everyone who took part in the challenge.

UKMT Intermediate Mathematical Challenge

Ym mis Chwefror, bu blynnyddoedd 9, 10 a 11 yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth Her Mathemateg UKMT. Derbyniodd Zach Rose dystysgrif arian a gyflwynwyd i'r 20% uchaf o'r holl gystadleuwyr a derbyniodd Tomos Chick, Cerys Hickman, Oskar Bond a Huw Hickman dystysgrif efydd a gyflwynwyd i'r 40% uchaf. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw am gymryd rhan.

In February 28 pupils from years 9, 10 and 11 took part in the UKMT Intermediate Mathematical Challenge. Zach Rose received a Silver Certificate awarded to the top 20% nationally and Tomos Chick, Cerys Hickman, Oskar Bond and Huw Hickman received Bronze Certificates awarded to the top 40% nationally. Many congratulations to them and to everyone who took part in the challenge.



26

Llwyddiant yn y Steddfod

Bu hon yn flwyddyn llwyddiannus arall i'r ysgol wrth i nifer o ddisgyblion yr ysgol gyrraedd y brifwyl unwaith eto eleni a rhai hyd yn oed yn camu i'r prif llwyfan. Roedd hi'n braf iawn gweld cymaint o eitemau yn cyrraedd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd o'r campws uwchradd a'r eitemau hynny'n amrywio o ganu i lefaru. Dywedodd Mr Dafydd Jones, Pennaeth Ysgol Bro Hyddgen "Dymunwn fel ysgol longyfarch yr holl ddisgyblion fu wrthi'n gweithio mor galed yn paratoi gan ddangos ein gwerthfawrogiad hefyd i'r hyfforddwyr am eu gwaith diflino."

Braf hefyd oedd dathlu llwyddiant ein disgyblion yn yr adran Dylunio a Thechnoleg gyda Ffion Davies, Blwyddyn 12, yn dod yn ail am ei phrosiect. Derbyniodd Ffion ganmoliaeth uchel gan y beirniaid am ei gwaith mewn cystadleuaeth o safon uchel.

Efallai i nifer ohonoch wyllo seremoni'r coroni a gynhalwyd dan gwmwl emosiynol eleni. Yn ôl y beirniaid, gellid fod wedi coroni 7 o'r ceisiadau a ddaeth i law. Braf iawn yw nodi bod un o'r 7 hynny yn fyfyrwr yn y chweched dosbarth yma ym Mro Hyddgen, Celf John. Dymunwn longyfarch Celf yn fawr am ei waith gan edrych ymlaen at glywed am ei llwyddiannau pellach yn y dyfodol agos.


Isod, gweler amlinelliad o ganlyniadau llwyfan a chelf a chrefft yr Urdd eleni:

Pyped BL 5 a 6	Alis Telfer: 1af
Pyped BL 2 ac iau	Ffion Haf Davies: 1af
Argraffu/Addurno ar Ffabrig BL 2 ac Iau	Eurig Mason: 1af
Argraffu/Addurno ar Ffabrig BL 3 a 4	Morgan Mason: 1af
Gwaith Creadigol 2D BL 3 a 4	Betsan Behnan: 3ydd
Gwaith Creadigol 2D BL 2 ac Iau (Gwaith Grŵp)	Grwp Ffion Haf Davies: 3ydd
Gwaith Lluniadu 2D BL 5 a 6	Dyfed Childs: 2il
Gwaith Lluniadu 2D BL 3 a 4	Betsan Behnan: 2il
Llefaru Unigol BL 7-9	1af - Mari Fflur Fychan -
Cor cerdd Dant BL 10 a dan 19 oed	2il - Côr Cerdd Dant
Unawd Bechgyn BL 10 a dan 19 oed	2il - Lewys Meredydd



Llwyddiant yn y Steddfod

27



28

Celf a Chreffft Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i'r disgylion buddugol yn y Sir eleni; da iawn chi am gystadlu:

Gwaith Lluniadu 2D Bl. 7, 8 a 9

1af Gwern Phillips Ysgol Bro Hyddgen

2il Gwenllian Mason Ysgol Bro Hyddgen

3ydd Branwen Sion Roberts Ysgol Bro Hyddgen

180: Gwaith Lluniadu 2D Bl. 10 a dan 19 oed

1af Aur Bleddyne Ysgol Bro Hyddgen

195: Gwaith Creadigol 2D Bl. 7, 8 a 9 (Unigol)

1af Parti Efa Bleddyne Ysgol Bro Hyddgen

2il Hanna Penrhyn Ysgol Bro Hyddgen

196: Gwaith Creadigol 2D Bl. 10 a dan 19 oed

1af Aur Bleddyne Ysgol Bro Hyddgen

216: Graffeg Cyfrifiadurol Bl. 7,8 a 9

2il Osian Pennant Jones Ysgol Bro Hyddgen

217: Graffeg Cyfrifiadurol Bl. 10 a dan 19 oed

1af Aur Bleddyne Ysgol Bro Hyddgen

244: Argraffu Bl. 7, 8 a 9

1af Hanna Penrhyn Jones Ysgol Bro Hyddgen

2il Gwenllian Mason Ysgol Bro Hyddgen

3ydd Beca Jones Ysgol Bro Hyddgen

245: Argraffu Bl. 10 a dan 19 oed

1af Aur Bleddyne Ysgol Bro Hyddgen

249: Argraffu/Addurno ar Ffabrig Bl. 7,8 a 9

1af Gwenllian Mason Ysgol Bro Hyddgen

263: Gwaith Creadigol 3D Tecstilau Bl. 10 a dan 19 oed

1af Tegan Llio Roberts Ysgol Bro Hyddgen

286: Gwaith Creadigol 3D Bl. 7, 8 a 9 (Unigol neu Grŵp)

2il Gwern Phillips Ysgol Bro Hyddgen

287: Gwaith Creadigol 3D Bl.10 a dan 19 (Unigol/Grŵp)

1af Ffion Haf Davies Ysgol Bro Hyddgen



Gweithdy Maint Cymru

29



Ddydd Mawrth, 5 Mehefin, croesawyd Ann MacGarry i'r ysgol i gynnal gweithdy gyda disgyblion Bl. 4, 5 a 6 yn seiliedig ar brosiect gan elusen Maint Cymru. Mae'r elusen yn gweithio ar brosiectau i warchod coedwigoedd glaw mewn gwahanol rannau o'r byd. Yn gyntaf dysgodd y disgyblion am leoliadau'r coedwigoedd glaw a'r math o anifieliaid sy'n byw yno. Yn dilyn hynny, trafodwyd sut le yw coedwig law a pham fod y coedwigoedd hyn mor bwysig. Dysgodd y plant fod 1.6biliwn o bobl yn dibynnu ar coedwigoedd glaw am eu bywolaeth, a thrafodwyd pam fod y coedwigoedd hyn mewn perygl. Mae elusen Maint Cymru yn gweithio o fewn cymunedau e.e. yn Uganda i blannu coed. Roedd hwn yn weithdy gwerth chweil i ddysgu sut y gallwn ni helpu i leihau cynhesu byd-eang a gwarchod coedwigoedd glaw.

On Tuesday 5 June, Ann MacGarry came to deliver workshops with Yr4.5 & 6 pupils about the work of the Size of Wales charity. The charity works alongside communities living in the rainforests in various parts of the world. Firstly, the pupils learnt about the location of the rainforests and the habitats they provide for different creatures. Then, the pupils discussed what it's like to be in a rainforest and why they are so essential for our eco system. Astonishingly, 1.6billion people rely on rainforests for their livelihood, however, these rainforests are under threat. Size of Wales is currently working on projects within communities in countries including Uganda and Guyana. This workshop was both interesting and informative and enabled pupils to learn what they can do to reduce global warming and protect rainforests.

Noson Diogewlch ar y we / Internet Safety evening

Cynhalwyd noson lwyddiannus i rieni a phlant yn ystod y tymor i drafod y peryglon ar y we a pha gamau y gallwn ni fel athrawon a rheini eu cymryd i atal rhain.

Mae'r adnoddau o'r noson ar gael ar wefan yr ysgol a bydd noson arall yn cael ei threfnu ym mis Medi i'r rheini doedd ddim yn gallu dod.

A internet safety evening was held during the term to discuss the dangers of the internet and what steps we as teachers and parents can take to avoid these.

The resources of the evening are available to download on the school website and another session will be arranged for September if you were not able to attend.



30 Her Menter a Chyflogadwyedd



Yn ystod yr wythnos weithgareddau bu 8 grŵp o flwyddyn 10 yn brysur iawn yn dylunio a datblygu gêm i ddenu twristiaid i Gymru fel rhan o'u gwaith ar gyfer y Fagloraeth Gymreig. Cafwyd arwerthiant hynod o lwyddiannus b'nawn dydd Iau gan godi £108.53. Ar ôl gwrando ar gyflwyniadau Cenin Pedr, Chunky Monkeys, Creamers, Ieuencid Cymru, It's a Mystery, Normal Limited, Ping Pong Bro Hyddgen a The Red Hot Oompa Loompas, dyfarnodd y Panel - Mr Llifon Ellis, Mr Dafydd Ellis, Miss Iona Thomas a Sam Roberts, mai Normal Limited oedd yn haeddu'r wobr gyntaf. Llongyfarchiadau mawr i'r flwyddyn gyfan am eu gwaith caled.

During the activities week 8 groups from Year 10 were very busy working on a product to promote Machynlleth as part of their Welsh Baccalaureate work.



Her Menter a Chyflogadwyedd

Yn ystod yr wythnos weithgareddau bu 8 grŵp o flwyddyn 10 yn brysur iawn yn dylunio a datblygu gêm i ddenu twristiaid i Gymru fel rhan o'u gwaith ar gyfer y Fagloraeth Gymreig. Cafwyd arwerthiant hynod o lwyddiannus b'nawn dydd Iau gan godi £108.53. Ar ôl gwrando ar gyflwyniadau Cenin Pedr, Chunky Monkeys, Creamers, Ieuencid Cymru, It's a Mystery, Normal Limited, Ping Pong Bro Hyddgen a The Red Hot Oompa Loompas, dyfarnodd y Panel - Mr Llifon Ellis, Mr Dafydd Ellis, Miss Iona Thomas a Sam Roberts, mai Normal Limited oedd yn haeddu'r wobr gyntaf. Llongyfarchiadau mawr i'r flwyddyn gyfan am eu gwaith caled.





Enterprise and Employability Challenge

During activities week, 8 groups from Year 10 were very busy designing and creating a Tourist Attraction Game for Wales as part of their Welsh Baccalaureate work. A very successful sale was held on Thursday afternoon and £108.53 was raised. After listening to a Pitch by Cenin Pedr, Chunky Monkeys, Creamers, Ieuencid Cymru, It's a Mystery, Normal Limited, Ping Pong Bro Hyddgen and The Red Hot Oompa Loompas the Panel - Mr Llifon Ellis, Mr Dafydd Ellis, Miss Iona Thomas and Sam Roberts, announced Normal Limited as the winners. A huge congratulations to them all.



Enterprise and Employability Challenge

31



32

Her y Gymuned / Community Challenge



Yn ystod yr wythnos weithgareddau bu Blwyddyn 11 yn brysur iawn yn gweithio yn y Gymuned fel rhan o'u gwaith ar gyfer y Fagloriaeth Gymreig.

During the activities week Year 11 were very busy working in the Community as part of their Welsh Baccalaureate work



Her y Gymuned

Yn ystod yr wythnos 9-13 o Orffennaf bu Blwyddyn 11 yn brysur iawn yn gweithio yn y Gymuned fel rhan o'u gwaith ar gyfer y Fagloriaeth Gymreig. Cafwyd Hyfforddi Pêl-droed, Hyfforddi Rygbi, Hyfforddi Athletau, Hyfforddi Cymorth Cyntaf, Hyfforddi Gwyddoniaeth i Flwyddyn 7, Hyfforddi Pêl-fasged, Garddio yn y Campws Uwchradd, creu Gêmâu tu allan i'r Campws Cynradd a chreu gwylau blodau. Diolch i bawb a fu ynghlwm â'r wythnos a diolch o galon i Blwyddyn 11 am eu gwaith caled.

Community Challenge

During the week 9-13 of July Year 11 were very busy working in the Community as part of their Welsh Baccalaureate. We had football coaching, rugby coaching, athletics coaching, First Aid coaching, Science coaching for Year 7, Basketball coaching, gardening in the Secondary campus, creating outdoor games for the Primary campus and creating raised beds. Thank you to everyone involved during the week and special thanks to Year 11 for all their hard work.



Her y Gymuned Bl 12/ Yr 12 Community Challenge

33



Her y Gymuned- Garddio o gwmpas ur ysgol uwchradd

Ar gyfer her y gymuned a'r fagloraeth Gymreig, rydym wedi dewis gweithio ar estheteg allanol yr ysgol drwy arddio o gwmpas yr adeilad. Gwnaethom ddewis hyn oherwydd rydym ni'n teimlo mai'r ysgol yw calon y gymuned ac fel y'n dymuno rhoi rhywbeth yn ôl i'r ysgol sydd wedi ein helpu ni gymaint. Rydym hefyd yn hoff iawn o arddio ac rydym yn teimlo fel y gallen ni helpu'r ysgol edrych llawer gwell hefo ychydig o TLC! Yn gyntaf, gwnaethom dorri llawer o wair a phlanhigion eraill o gwmpas y bloc dynaethau oherwydd roedd o wedi tyfu allan o reolaeth. Roedd hyn wedi cymryd llawer o amser a gwaith caled er mwyn sicrhau'r gwaith gorau posib. Nesaf, rhaid oedd paentio'r orsaf dywydd a choffa Miss Elfyn. Rydym wedi hoffi gwneud yr holl waith yma ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr i weld yr holl waith yn dwyn ffrwyth!

Community Challenge-Gardening around the Secondary Campus

For the community challenge within the Welsh Baccalaureate, we have chosen to help out the school caretaker with gardening tasks and other maintenance tasks around the secondary campus. We have chosen this as we all have an interest in gardening and we feel that we could make the school, which is the heart of every community, more aesthetically pleasing. The first task we did was to clear out the greenery around the humanities building as it was over grown and could be a hazard. This was hard graft especially with the heat we have been having recently. Next up was to paint the fence around the weather station and the memorial bench. These jobs were a lot more relaxed and didn't take too long with all 6 of us painting. We have enjoyed this experience and are excited to see how it will look when finished!

Stefan Jones 12 Maesglasau

Rheliffordd Corris

Fel tîm o fyfyrwyr chweched dosbarth o Ysgol Bro Hyddgen rydym wedi bod yn cymryd rhan mewn prosiect cymunedol blynnyddol cyn diwedd tymor yr haf. Mae'r prosiect cymunedol yn rhan o gwrs Bagloriaeth Cymru. Yn 2018, gwnaethpwyd cytundeb gyda Rheilffordd Corris i gynhyrchu llyfrynn sy'n disgrifio nifer o deithiau cerdded lleol sy'n ymwneud â threftadaeth ddiwydiannol yr ardal. Ein tasg ni oedd cynhyrchu llyfrynn sy'n disgrifio pedair taith o gwmpas Corris ac Aberllefenni sy'n dangos y dreftadaeth ddiwydiannol leol, sydd ar yr un pryd yn darparu nifer o deithiau cerdded addysgol i dwristiaid. Fe'n rhannwyd yn ddau dim o 5. Roedd pob tîm yn cynhyrchu'r testun yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer dau o'r teithiau cerdded. Roedd y dasg yn cynnwys dwy daith allan i Corris i brofi y llwybrau ein hunain, a gwaith cyfrifiadur trylwyr. Yn gyfan, roedd yn brofiad gwahanol i ni fel disgylion y chweched ac yn un buddiol iawn i'r gymuned.

Corris Railway project

As part of the 6th form team in Ysgol Bro Hyddgen, our community challenge project , for the Welsh Baccalaureate this year, was to help the Corris Railway. The project they have asked us to assist them with is to promote walks around the railway and help them increase people's awareness of the railway and monitor visitor numbers. We have completed 4 walks as part of 2 teams and we are now in the process of writing up the information ready to be published in a booklet. The information will detail the routes of the walks, but also interesting historical facts along the routes. We learnt a lot about our local area.



Gig Candelas – Siarter Iaith

34



Mae'r ysgol yn falch o gyhoeddi bod y Campws Cynradd wedi ennill Gwobr Efudd y Siarter iaith

The Primary Campus are proud to announce that they have achieved the Welsh Language Charter Bronze Award



Gig Candelas – Siarter Iaith

Cafodd disgylion Bl.5 a 6 y Campws Cynradd gyfle arbennig i fynd i wyllo y Candelas yn perfformio mewn gig yn Llanfair Caereinion ar ddydd Iau 22 Mawrth. Trefnwyd y digwyddiad fel rhan o ymgyrch i hybu a dathlu cymreictod ymhlið y plant. Mwynheuwyd y perfformiad yn fawr, gyda'r disgylion yn dawsio a chanu i ganeuon y grŵp poblogaidd hwn.

Candelas Gig

On Thursday 22 March, Year 5 & 6 pupils travelled to Llanfair Caereinion for a special gig by the Candelas. This event was organised to promote and celebrate Welsh culture. The pupils responded with enthusiasm as they sang along and danced to the popular group's songs.



Dosbarth Celynen yn Garddio

35



Fel rhan o brosiect Hau Hadau Gerddi Bro Ddyfi, a ariennir gan Y Loteri Fawr, bu plant dosbarth Celynen yn planu blodau gwylt, mewn gwely blodau pwrrpasol wrth fynedfa'r ysgol. Bu'r wirfoddolwraig a'r cydlynydd, Angela Paxton, a'r arweinydd cynorthwyol, Anna Fisher, yn gweithio gyda phlant o'r flwyddyn derbyn a Blwyddyn 1 & 2. Cafodd y planhigion eu dewis er mwyn hyrwyddo bywyd gwylt a chreaduriaid cyn-hennid megus gwenyn a glonod byw. Edrychwn ymlaen i weld y planhigion hyn yn eu blodau.

As part of the "Hau Hadau Gerddi Bro Ddyfi" project, which was funded by the Big Lottery fund, Celynen class planted wild flowers in a purpose built flower bed. The volunteer and project co-ordinator, Anna Paxton with the assistant leader Anna Fisher, have been working with pupils in the reception class and in year 1 & 2. Plants were selected to promote wildlife including the various invertebrates and bugs that live in the habitat they have created. We look forward in seeing how their plants will grow.

Diolch i Sean Gates

Hoffai'r ysgol ddiolch i Sean Gates am ei waith gwirfoddol yn darparu cyfleoedd chwaraeon allgyrsiol i'r plant ac am gefnogi'r Llysgenhadon Chwaraeon gyda'u cyfrifoldebau. Dymunwn yn dda iddo yn ei waith dramor yn fel swyddog chwaraeon i blant gyda'r cwmni gwyliau Thomas Cook.

The school would like to thank Sean Gates for his excellent volunteering work in providing extra curricular activities to the pupils and supporting them in their roles as sports ambassadors. We wish him well in his overseas work as sports officer for children with the holiday company Thomas Cook.



36

Adran Addysg Gorfforol

Cofiwch ein dilyn ar Twitter! @AGHyddgenPE

Ar ô tymor llawn gwynt glaw a roedd hi'n braf gweld yr haul yn ei ôl. Roedd ymdrechion ac agwedd y disgylion unwaith eto o'r safon uchaf a rhaid canmol ein disgylion am gymryd rhan mewn amryw o chwaraeon fel Rygbi 7 bob ochr, athletau, criced, rownderi a yn y blaen Cawsom ddechreuaad ardderchog i'r tymor pan wnaeth disgylbl blwyddyn 8, Gwern Phillips, gystadlu dros ysgolion Powys ym mhencampwriaeth Prydain athletau dan do (1). Bu'n cystadlu yn y sbaint a'r pwysau. Bu Gwern, Isaac a Criag yn cystadlu ym mhencampwriaeth yn y Drenwydd gydag Isaac yn dod yn 1af a Craig a Gwern yn 2il (2+3).

Ychydig o wythnosau ar ôl hynny, gwnaeth disgylbl blwyddyn 9, Alex Mathers, ein gadael i ymuno gyda Chlwbu Pel-droed Burnely-pob lwc iddo yn y dyfodol (4)! Ym mis Mai, fe deithiodd y tim athletau i Aberhonddu i gystadlu yn athletau Powys. Unwaith eto roedd yna nifer o berfformiadau cryf ac yn adlewyrchu gwaith caled y disgylion gyda nifer yn gorffen yn y 3 cyntaf ym Mhowys (5-10). Cafodd Isaac Ayres ac Abi Edwards eu dewis i gynrychiol'r Sir ym mhencampwriaeth Cymru. Rhaid canmol y disgylion am eu hymdrechion a'u gwaith caled wrth ymarfer yn y clybiau athletau a gystadlu yn erbyn ysgolion lan i dair gwaithmaint Bro Hyddgen! Yng nghanol Mehefin, gwnaeth grwp o ddisgylion TGAU a Lefel A hyfforddi clwstwr ein ysgolion cynradd. Dyma brofiad gwych i'r disgylion ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu a'u hyder (11). Gyda glaw wedi gohirio twrnament 7 bob ochr y tymor diwethaf, bu timau blwyddyn 7 ac 8 yn Llanidloes i gystadlu yn nhwrrnament Powys.

Profiad gwych i'r bechgyn a rhaid canmol y bechgyn am gystadlu. Fe deithiodd y tim blwyddyn 10 yng nghanol mis Mehefin i chwarae yn yr un twrnament. Unwaith eto nifer o berfformiadau cryf gan guro Llanfair-ym-Muallt a'r Trallwng ac ond colli i bencampwyr y twrnament, y Drenwydd, o un cais yn ein grwp (12-14). Bu'r tim criced yn brysur y tymor hwn gan ymarfer ar ol ysgol bob nos iau a chystadlu mewn twrnament yn y Trallwng a byddwn yn cystadlu yn Nolgellau ar ddiwedd y tymor. Ar ol ennill cystadleuaeth y flwyddyn diwethaf bydd y bechgyn mewn hwyliau da ac yn barod am yr her ennill unwaith eto! (15) Edrychwn ymlaen at fabolgampau'r campws uwchradd ar y 19eg o Fhehefin. Hoffai Mr Jones a Miss Wyn longyfarch a diolch i bob disgyl a gynrychiolodd yr adran eleni gyda brwdfyded, angerdd a balchder. Mae'r dyfodol yn un disglair. Welwn ni chi ym mis Medi.



1



2



3



Adran Addysg Gorfforol

Cofiwch ein dilyn ar Twitter! @AGHyddgenPE

37



38

Adran Addysg Gorfforol

Cofiwch ein dilyn ar Twitter! @AGHyddgenPE

After a term full of rain and wind, it was nice to see the sun return. Pupils' efforts and attitude were once again of the highest standard and the pupils must be praised for taking part in a variety of sports such as: 7-a-side rugby, athletics, cricket, rounders and athletics. We had an excellent start to the term when Year 8 pupil Gwern Phillips competed for Powys schools in the indoor athletics UK championship (1). He competed in the sprint and shot putt against the best in the UK.

The following boys: Gwern, Isaac and Craig competed in Newtown Championship with Isaac coming 1st with Craig and Gwern in 2nd (2 + 3). A few weeks after a year 9 pupil Alex Mothers left to join Burnley Football Club - good luck to him in the future. In May, after a number of training sessions inside and outside school, the athletics team travelled to Brecon to compete in Powys athletics. Once again there were a number of strong performances and reflected the hard work of the pupils with a number ending in the top 3 in Powys (5-10). Isaac Ayres and Abi Edwards were chosen to represent the County in the Welsh championship in Lecwith, Cardiff to compete against the best in Wales (12). The pupils must be praised for their efforts and hard work; practicing at athletics clubs and competing against schools sometimes three times the size of Bro Hyddgen!

In the middle of June, a group of GCSE and A level pupils trained pupils in our cluster primary schools. A great experience for the pupils to develop their communication and confidence skills (11). After the rain had suspended the 7s side tournament last term, year 7 and 8 teams travelled to Llanidloes to compete in the Powys tournament. A great experience for the boys and they must be praised for their perseverance! The year 10 team travelled (in June) to play in the same tournament. Once again a number of strong performances were seen. Bro Hyddgen beat schools such as Builth Wells and Welshpool and only lost to Newtown, the tournament champions by one try (12-14).

The cricket team were also busy this season and practiced after school on a weekly basis. They played in a tournament in Welshpool and will play in Dolgellau at the end of the term. After winning the competition last year, the boys will be favourites to win again. (15) We look forward to Sports Day on the 19th July and Mr Jones and Miss Wyn would like to take this opportunity to congratulate and thank all the pupils who have competed and represented the department with pride, passion and enthusiasm. A bright future lies ahead. See you in September!



13



14



Dyma gasgliad o luniau o'r
BECHGYN TGAU ADDYSG
GORFFOROL 2016-18

*Collection of photos of the GCSE
PE Boys 2016-2018*



Adran Addysg Gorfforol

Cofiwch ein dilyn ar Twitter! @AGHyddgenPE

39



Gweithdy Hawliau Plant

40

Gweithdy Hawliau Plant

Children's Rights Workshop



Ddydd Mercher, 16 Mai, croesawyd Jordan James o swyddfa'r Comisiynydd Plant, i'r ysgol i gynnal gweithdy gyda dosbarth Helygen a Collen ar Hawliau Plant. Cafodd y disgylion wybodaeth ynghlyn â gwaith Comisiynydd Plant Cymru a buont yn trafod hawliau plant. Yn ystod y gweithdy, bu'r disgylion yn adnabod yr hawliau sydd yn bwysig iddyn nhw yn eu bywydau bob dydd yng Nghymru ac yn rhoi argymhellion am bethau sydd angen i'r Comisiynydd weithio arnynt ymhellach i helpu plant Cymru heddiw ac yn y dyfodol. Roedd eu syniadau yn cynnwys rhoi mwya o gefnogaeth i blant sydd â phroblemau iechyd meddwl, diogelu plant ar-lein, a gwella cyfleusterau hamdden o fewn y gymuned.

On Wednesday 16 May, Jordan James was welcomed to the school to talk to pupils from Class Helygen and Collen about Children's Rights. The work of the Children's Commissioner was explained and during the workshop, the pupils discussed the rights

which are important and relevant to them as children living in Wales. Finally, they gave suggestions for the Commissioner about rights which could be developed further in order to help children in Wales in the future. These ideas included providing greater support for mental health and well-being, more protection for pupils online and better recreation facilities within the community.



Prosiect Busnes Dosbarth Helygen

41



Yn ddiweddar, bu dosbarth Helygen yn rhedeg stondin snac iach o'r enw Snactastic fel rhan o brosiect menter a busnes. Y disgylion fu'n gyfrifol am gynllunio'r stondin oedd yn gwerthu snaciau iach; o'r gwaith marchnata a hysbysebu i archebu snaciau a rhedeg y stondin. Buont yn cadw cyfrifon o'r gwariant a'r gwerthiant a'r nod oedd cynhyrchu elw!

As part of a business and enterprise project, class Helygen recently ran a snack stall in the Junior Department. The stall, which they named 'Snactastic', sold healthy snacks at break times. The pupils were responsible for the planning, the advertising and marketing, ordering and the running of the stall. Keeping a careful eye on the budget, they kept records of the expenditure and sales, with the aim of making a profit!

Llwyddiant yn y Gala Nofio

Mae'r ysgol yn falch o ymdrech pob un plentyn fu'n cystadlu yng ngala nofio Ysgolion Powys a gynhlaiwyd ddydd Gwener 20 Ebrill. Estynwn longyfarchiadau arbennig i Finlay, Louis, Olivia a Liam sydd wedi ennill eu lle yn y rownd nesaf.

The school is very proud of the effort of each one of our pupils who has been competing in the Powys Schools Swimming Gala which was held on Friday April the 20th. We would like to especially congratulate Finlay, Louis, Olivia and Liam who have won a place in the next round.



42

Diwrnod Chwaraeon Aml Gyfrwng

Diwmod Chwaraeon Aml Gyfrwng

Multimedia Sports Activities Day



Ddydd Gwener 15 Mehefin teithiodd disgyblion Blwyddyn 4, 5 & 6 i Garno ar gyfer Diwrnod Chwaraeon. Cyfle oedd hwn i ddisgyblion ysgolion y Dalgylch gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon. Yn ystod y dydd, cawsant flas ar bob math o gampau gan gynnwys criced cyflym, tenis, rygbi tag, rownderi a mwy. Braf oedd gweld pawb yn ymuno yn yr hwyl ac yn ymarfer eu sgiliau wrth gydweithio mewn timau. Diolch i Johnny Roberts, Swyddog Datblygu Chwaraeon Cymunedol am drefnu'r digwyddiad ac i ddisgyblion y Campws Uwchradd am arwain y gweithgareddau. Diwrnod gwerth chweil!

On Friday 15 June, pupils from Year 4,5 & 6 travelled to Carno for a day of sporting activities. This was an opportunity for all pupils to participate in a variety of different activities. During the day, they enjoyed several different sports including cricket, tennis, tag rugby, rounders and more. Everybody worked together to improve their skills during the day and there was great teamwork. Thank you to Johnny Roberts, Community sports development officer for organising the event and to the pupils from the Secondary Campus who led the sessions. A fantastic day!

Gŵyl Gemeg Salters / Salters Festival of Chemistry

Cafodd tîm o flwyddyn 8 a 9 y cyfle i wneud arbrofion fforensig mewn labordy ym Mhrifysgol Aberystwyth fel rhan o Gŵyl Cemeg Salters.

A team from year 8 and 9 had the chance to carry out forensic experiments in the laboratory in Aberystwyth University as part of the Salters Festival of Chemistry.

(Shaylie Brown, Owen Fisk, Ella Morris a Emily Toon)



Gweithdai Celf a Barddoniaeth

43



Gweithdai Celf a Barddoniaeth

Cafodd plant dosbarth Helygen brofiadau arbennig yn ddiweddar yn cydweithio gyda'r bardd Eurig Salisbury a'r artist Nicky Arscott. Sbardun y gweithdai oedd 'Dŵr' a bu'r disgylion yn rhannu syniadau, yn casglu geiriau ac yn eu gosod at ei gilydd i greu cerddi. Defnyddiwyd y cerddi hyn i sbarduno gwaith celf dan arweiniad Nicky. Roedd cyfle i'r disgylion arbrofi gydag amrywiaeth o gyfryngau gan gynnwys dyfrliw, pastelau ac inc er mwyn creu cyfanwaith. Bydd cyfle i weld gwaith y plant yn ystod Gŵyl Llên Plant Bro Ddyfi. Diolch i Menter Maldwyn am drefnu'r gweithdai hyn a chynnig profiadau gwerthfawr i'r plant.

Art and Poetry Workshops

Pupils from Helygen Class enjoyed working with the poet Eurig Salisbury and the artist Nicky Arscott recently. The theme chosen for the workshops was 'Water', and the pupils shared ideas, collected words and used these to create their own poems. These poems were then used to inspire their art work under Nicky's guidance. By experimenting with various materials and media including watercolours, pastels and ink, the pupils created their own pictures. The work will be displayed during the Bro Ddyfi Children's Lit Festival. Thank you to Menter Maldwyn for organising the workshops which offered such enriching experiences for the pupils.



44 Sut ydym yn cyfathrebu

Sut mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda'r plant, rheini a'r gymuned?

How does the school communicate with pupils, parents and the community?



Mewn cymuned wledig fel Machynlleth mae'n hanfodol bwysig fod ein pobl ifanc a'u rheini yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael yn yr ysgol. Mae'r ysgol wedi defnyddio technoleg yn effeithiol er mwyn llwyddo. Er mwyn sicrhau hyn mae gan yr ysgol system gyfathrebu effeithiol gyda nifer o dechnegau sydd yn gwneud hyn yn bosib a hynny wyth gyfathrebu yn fewnol ar gyfer ein disgylion a staff ond hefyd yn allanol gydag ymwelwyr, rheini a'r gymuned.

Gwefan yr Ysgol

Mae'r wefan yn hanfodol i rannu gwybodaeth bwysig, ffurflenni, llythyrau a hefyd hyrwyddo'r ysgol i'r gymuned a thu hwnt. Mae'r wefan yn ddwyleithog ac yn hysbysebu'r prospectws a newyddion blog drwy twitter a hefyd llwyddiannau'r ysgol yn yr ardal newyddion.

Gwefan : <https://www.brohyddgen.powys.sch.uk>

Cyfryngau Cymdeithasol (Twitter a Facebook)

Mae defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn hanfodol i sicrhau cyswllt cryf rhwng y cartref a'r ysgol. Mae yna gymaint o ddigwyddiadau a llwyddiannau yn digwydd yn yr ysgol ac mae rhieni yn ddiolchgar ein bod ni'n cyhoeddi'r rhain a'u cadw nhw mewn cyswllt gyda'r ysgol yn eu ffrwd cyfryngau cymdeithasol Facebook a Twitter. Un o fanteision cyfryngau cymdeithasol ydy fod rhieni yn gallu cadw mewn cyswllt â'r ysgol trwy wahanol ddulliau a thechnoleg, boed hynny yn gyfrifiadur, yn dabeled neu yn ffôn symudol.

Facebook : <https://www.facebook.com/BroHyddgen>

Twitter: <https://twitter.com/brohyddgen>

For a small school in a rural area as Machynlleth it is essential that pupils and parents are aware of all the opportunities that are available at the school. The school has been successful in using technology to achieve this aim. The school has used a range of effective communication systems to carry out its aim of effective communication internally between staff and pupils but also externally with stakeholders including visitors, parents and the wider community.

The School Website

The school website is an essential tool for sharing key information including forms, letters, important documents and messages. The school targets its bilingual website at new pupils and their parents through its online prospectus and news blog which is fed through the school's twitter feed. In the news section, important news and developments which are taking place at the school are posted as they happen during the school year.

Website: <https://www.brohyddgen.powys.sch.uk>

Social Media (Twitter and Facebook)

The use of social media is a key aspect of the school's success in ensuring effective school and home communication. There are many school events and achievements which deserve to be recorded and the most effective and popular way to share these with parents is through using Twitter and Facebook. The advantage of social media is the ability for parents to view school postings using many different devices including the Twitter and Facebook website, using portable devices such as tablets and smart phones.

Facebook : <https://www.facebook.com/BroHuddgen>

Twitter: <https://twitter.com/brohyddgen>



How we communicate

45

Neges Testun

Ers 2012 mae'r ysgol wedi mabwysiadu system teachers 2 parents sydd yn caniatáu i'r ysgol i yrru neges destun at y rheini. Nid negeseuon i hysbysu'r rhieni nad yw eu plentyn wedi gwneud ei waith cartref mo rhain yn unig ond defnyddir y cyfrwng hwn fel arf i atgoffa'r rhieni am ddigwyddiadau'r ysgol yn ogystal â rhoi gwybod i'r rhieni am unrhyw waith da y mae eu plentyn yn ei wneud yn yr ysgol. Trwy ganmol y plant a throsglwyddo'r neges yma i'r cartref mae'r rheini hefyd yn gallu canmol eu plant ac rydym yn llwyddo i hyrwyddo cyfathrebu a chysylltiad cyson a chlir rhwng yr ysgol a'r cartref.

Llwyfan e-ddysgu'r Ysgol (VLE)

Mae'r ysgol eisoes wedi defnyddio nifer o systemau effeithiol ar gyfer cau'r bwlc rhwng adnoddau dysgu yn y cartref a'r ysgol. Rydym yn defnyddio Remote Desktop, Moodle a hefyd Office 365 sydd yn caniatáu i bob disgrbl yn yr ysgol gael mynediad i system yr ysgol o'r cartref. Rydym hefyd yn sicrhau fod gan pob plentyn fynediad i bencynnau meddalwedd yr ysgol am ddim yn y cartref i sicrhau cyfle cyfartal i bob plentyn yn yr ysgol.

Ein Bro Papur Newydd yr Ysgol

Yn ei hanfod, pwrpas papur newydd yr ysgol, Ein Bro, yw dathlu llwyddiannau ein disgrybllion; rhoi cydnabyddiaeth a bri i'r disgrybllion hynny sy'n cymryd y cam ychwanegol hwnnw ac yn serennu gan obeithio annog eraill i ddilyn yr un llwybr. Mae'n llinlyn cyswllt effeithiol tu hwnt rhwng yr ysgol, y rhieni a'r gymuned ac yn arddangos doniau ein pobl ifanc.

Gellir lawr llwytho'r papur newydd yma: <https://www.brohyddgen.powys.sch.uk/cu/gwybodaeth/papur-newydd-usgol-ein-bro>

Anwiredd fyddai dweud mai gwaith un person yw'r wefan a holl ddulliau cyfathrebu arloesol yr ysgol, gan gynnwys Ein Bro. Mae'n waith tim; yn ffrwyth llofur y disgrybllion a'r staff.

Mae'n diolch ni'n fawr i bawb sydd wedi cyfrannu ac sy'n parhau i gyfrannu gan obeithio y bydd dulliau cyfathrebu'r ysgol yn parhau i ddatblygu am flynyddoedd i ddod.

Text Messaging

Since 2012 the school has adopted this system for communicating with parents and from its early adoption date to the present day, it has gone from strength to strength. Using the teachers2parents software the school has been able to, not only message reminders to pupils' parents about homework or events, but also to promote pupil achievement. The school firmly believes that praising pupil achievement can lead to improved behaviour. Text messaging allows the school to praise where praise is due and for the praise to reach the home in an instant. The text messaging medium secures effective communication between the school and home.

E-learning and the use of VLE

The school has always used effective e-learning systems to close the gap between home and school. The school uses a range of e-learning systems including remote desktop which allows all its pupils to remote into the school from home and access a school based learning experience, regardless of their location. The school also uses Moodle and Office 365 which enables its pupils to access their learning from anywhere, at anytime of the day. The school also provides the same software, which can be used in the home as if they were in school. This is provided via the remote desktop application or the Office 365 portal. This ensures that all the school's pupils have the tools they need to succeed.

Ein Bro, the school newspaper

The main purpose of the school newspaper Ein Bro is to celebrate the success of its pupils and to recognise their achievements, with the aim of inspiring others to follow. It is an also a vital communication link between the school, home and the community which aims to inform and showcase the talents of the young students.

Download the newspaper: <https://www.brohyddgen.powys.sch.uk/cu/gwybodaeth/papur-newydd-usgol-ein-bro>

It would not be fair to credit all the communication tools that the school uses, including the school newspaper Ein Bro, to 1 person. Ensuring and applying good 21st century communication techniques is a team effort and a testament to the hard work of the school's pupils and staff. The school would like to thank everyone who has contributed so far and looks forward to further co-operation and input in the future!



46 Blwyddyn 12



UCAS

Cafwyd cyflwyniad hynod werthfawr gan staff Prifysgol Aberystwyth, nos Fercher, 6 Mehefin, i fyfyrwyr a'u rhieni yng Nghanolfan Hyddgen yr ysgol. Yn ystod y cyflwyniad rhoddwyd amlinelliaid am y broses o wneud cais i'r brifysgol. Braf iawn oedd eich croesawu atom y noson honno. Os nad oedd hi'n bosib i chi fynychu'r noson, ceir rhagor o wybodaeth yma:

www.ucas.com/how-it-all-works/parents-and-guardians

Mae gwefan UCAS ar gyfer gwneud ceisiadau ar gyfer Medi 2019 bellach yn fyw. Pan fydd y myfyrwyr yn cofrestru ar y wefan am y tro cyntaf bydd yn gofyn am buzzword. Gofynnwch i Mr Ellis am y buzzword. Mae'n bwysig bod y myfyrwyr yn cadw eu cyfrinair a'u manylion mewngofnodi ynghyd â'r buzzword yn gufrinachol.

Cael hyd i Gyrsiau ar gyfer 2019

Ewch i www.ucas.com er mwyn cael mynediad i Course Search: gwefan sy'n cynnig gwybodaeth am ofynion mynediad i wahanol gyrsiau addysg uwch. Dylid dechrau ymchwilio i'r cyrsiau hyn nawr, yn enwedig os yw eich plentyn yn ystyried astudio cwrs meddygaeth, milfeddygaeth neu fynychu Rhydychen/Caergrawnt gan fod dyddiadau cau'r cyrsiau/prifysgolion hyn yn gynharach na'r lleill.

APASUE

Fis Mehefin, bu myfyrwyr Blwyddyn 12 yn rhan o weithdy hollbwysig gan swyddogion iechyd Powys a oedd yn ymdrin â nifer o faterion ynghylch iechyd rhyw. Diolchwn iddynt am eu gwaith caled.

UCAS

At 5pm on Wednesday, June 6th, a presentation was organised for Year 12 students and their parents at the Hyddgen Centre, Ysgol Bro Hyddgen. This short presentation gave both students and parents an outline of the university application process and we were pleased to welcome so many of you here on the evening. If you were unable to attend, further information is available at: www.ucas.com/how-it-all-works/parents-and-guardians

UCAS Apply 2019 is now live. When the students first register they will be asked for a buzzword. The buzzword for this year is available from Mr Ellis. Students should keep their log-in details, their password and the school's buzzword secure.

2019 Course Search

Course search for 2019 is now live at www.ucas.com so that students get a feel for the requirements of the courses in which they are interested. Courses have an Entry Profile, with important information such as entry requirements, campus location and course content. Students can start their application at any time with the final deadline to submit applications at the beginning of January, 2019.

APASUE

During the last few days of June, Year 12 students took part in an important workshop organised by Powys Health Officials which dealt with various aspects of sexual health.

The Welsh Baccalaureate Experience Individual Project and Aberystwyth University

Aberystwyth University arranged various workshops for Year 12 students outlining the requirements of the Individual Project



Year 12

47



Prifysgol Aberystwyth

Trefnodd Prifysgol Aberystwyth, ynghyd â'r Llyfrgell Genedlaethol, diwrnod i fyfyrwyr Blwyddyn 12 yr ysgol i amlinellu gofynion y prosiect unigol - uned sydd gyfwerth â 50% o holl waith y Fagloriaeth. Cafwyd diwrnod hynod werthfawr ac mae'n diolch ni'n fawr i Dewi Phillips o Brifysgol Aberystwyth am yr holl waith trefnu.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Ddydd Mawrth, 29 Mehefin, daeth Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, i'r ysgol gan gynnal sesiwn holi gyda myfyrwyr Blwyddyn 12. Roedd Mr Llywelyn yn awyddus iawn i glywed gan ein pobl ifanc ac rydym yn ddiolchgar iddynt am eu cyfraniadau.

Her y Gymuned

Fel rhan o'r uned Her y Gymuned o'r Fagloriaeth, disgwylir i fyfyrwyr blwyddyn 12 gwblhau cyfnod o waith gwirfoddol yn y gymuned. Yn ystod yr wythnos a oedd yn cychwyn ar yr 2il Orffennaf dechreuodd y myfyrywr ar y gwaith yma. Roedd rhai gweithgareddau gwirfoddol eisoes wedi eu trefnu ar gyfer y myfyrywr ond roedd croeso iddyn nhw gynnig eu syniadau eu hunain hefyd. Bu myfyrywr wrthi'n garddio ar y campws uwchwradd a'r cynradd, yn creu pamffled i gyd-fynd â theithiau cerdded o amgylch Corris, cynnal diwrnod rhwngwladol i blant y campws cynradd yn ogystal â chreu gardd gofeb yn y Plas. Diolchwn i Mr Rowlands a Mr Dafydd Ellis am eu cyfraniadau yn ystod yr wythnos.

Canlyniadau Uwch Gyfrannol

Caiff y canlyniadau eu cyhoeddi ddydd Iau, 16 Awst 2018. Bydd yr ysgol ar agor i'r myfyrywr dderbyn eu canlyniadau o 9.00yb ymlaen. Bydd hi'n bobis trafod opsiynau astudio A2 gyda staff yn ystod y dydd neu rhwng 10yb-2yp, ddydd Gwener 17 Awst.

which is worth 50% of the Welsh Bacc. This was a very beneficial day for the students and we wish to thank Dewi Phillips of Aberystwyth University for his work.

A visit by the Police Commissioner

Mr Dafydd Llywelyn, The Police Commissioner for Dyfed-Powys, visited the school to give Year 12 students a presentation and answer any questions they might have in regard to his role within the community. He was eager to hear from our young people and I thank the students for their contributions.

Community Challenge

As part of the Global Citizenship Challenge of the Welsh Bacc, students are expected to partake in a volunteering week. The week commencing 2nd July had been allocated for students to do so. Various volunteering activities were organised for the students, however, they were also welcome to pitch in with their own ideas. We had a group of students gardening on both the primary and secondary campus, a group organised an international day at the primary campus with a few students also creating a professional pamphlet to promote walks around Corris. We are very proud of the hard work and dedication shown by our students during this week.

AS Results

The results will be announced on Thursday, 16th August. The school will be open to students from 9.00am onwards. It will be possible to discuss A2 study options with staff during the day or on Friday 18th August between 10am-2pm.



48

Arweinydd Dysgu'r Rhwydwaith Clwstwr Bro Hyddgen a Chaereinion

Apwyntio Arweinydd Dysgu'r Rhwydwaith Clwstwr Bro Hyddgen a Chaereinion

Network leader of Learning Appointed for Bro Hyddgen and Caereinion Cluster

Ebost / Email: eirian.davies@erw.org.uk



Heol Rydych yn fy adnabod fel yr Athrawes Ddaearyddiaeth yn Ysgol Bro Hyddgen, ond am gyfnod... byddaf yn gweithio i Gwmlni ERW o fewn y Rhanbarth / Clwstwr. Sialens newydd a chyffrous! Byddaf yn gweithio gyda 15 ysgol a drawys y Clwstwr, 2 Uwchradd ac 13 Cynradd i gynorthwyo yn bennaf gyda pharatoi Ysgolion at ein Cwricwlwm newydd. Ers dechrau Mehefin mae'r car wedi dod i adnabod yr A470 a'r A489 yn arbennig o dda! Rwyf eisoes wedi cyfarfod gyda rhan fwyaf o Brifathrawon a Staff Ysgolion y 15 Ysgol, ac wedi dechrau darparu hyfforddiant ar eu cyfer.

I grynhau, mae paratoadau ar y gweill gogifer newidiadau arfaethedig yn y Cwricwlwm rydym yn dysgu I'n plant. Bydd hyn yn galluogi ein disgylion i ddod yn fwy annibynnol, hunan - ddisgyblidig a dysgwyr creadigol. Rydym angen eu paratoi ar gyfer byd gwaith sydd yn newid yn ddiyddiol o ran sglaiau disgwyldig, ac rydym yn dymuno gweld ein disgylion yn:

- *ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes*
- *cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith*
- *dinasydion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd*
- *unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wrieddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.*

Hello! You all know me as the Geography Teacher at Ysgol Bro Hyddgen Secondary campus... but for a short while I will be working for a Company called ERW within the Cluster regions. An exciting challenge! Working with the 15 Schools across the clusters, Two Secondary and 13 Primary, my Role will be to primarily assist preparing schools for the New Curriculum for Wales, and since the beginning of June I have already travelled the width of Mid Wales many times meeting teachers and delivering training and messages from Welsh Government and Erw. I will be getting to know the A470 and A489 very well!

In essence, education in Wales is preparing for a massive change, which will enable our pupils to become more independent, self-disciplined and creative learners, preparing them for a world of work that is ever changing in the skills required. We want our pupils to be

- *ambitious, capable learners, ready to learn throughout their lives*
- *enterprising, creative contributors, ready to play a full part in life and work*
- *ethical, informed citizens of Wales and the world*
- *healthy, confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valued members of society.*

6 maes dysgu



Celfyddydau mynegiannol.

Iechyd a lles.

Dyniaethau (gan gynnwys addysg grefyddol a ddylai barhau'n orfodol hyd nes y bydd dysgwyr yn 16 oed).

Leithoedd, llythrennedd a chyfathrebu (gan gynnwys y Gymraeg, a ddylai barhau'n orfodol hyd nes y bydd dysgwyr yn 16 oed, ac ieithoedd tramor modern).

Mathemateg a rhifedd.

Gwyddoniaeth a thechnoleg (gan gynnwys cyfrifiadureg).

Six areas of learning



Expressive Arts

Drama, art and design

Health and well-being

Inc tackling obesity; relationships and sex education

Humanities

History, geography, politics, more emphasis on RE and spirituality

Maths and numeracy

Science and technology

Languages, literacy and communication

Inc a greater emphasis on Welsh - so pupils see it as modern way to communicate not just something to study



Gweithdy “Tipyn o Gês”

49

Bu dosbarth Onnen yn ffodus iawn i ennill cystadleuaeth i gael gweithdy creadigol *Tipyn o Gês* i ymweld â'r dosbarth.

Onnen class were very fortunate to win an activity workshop : Tipyn o Gês.



Gweithdy *Tipyn o Gês*

Bu dosbarth Onnen yn ffodus iawn i ennill cystadleuaeth i gael gweithdy creadigol “Tipyn o Gês” i ymweld â'r dosbarth. Daeth Llinos Mair awdur cyfres Wenfro i'r dosbarth a chynnal y gweithdy. Spardun y gweithdy oedd y stori “Parti Barti”. Roedd hyn yn gweddi'n hyfryd gyda ein thema “Y môr”. Dysgom am ailgylchu, llygredd y môr a gofal yr amgylchedd. Cawsom lawer o hwyl a phroffiad arbennig. Yn dilyn y sesiwn gyda Llinos aethom ymlaen i greu cychod allan o ddeunyddiau ailgylchu.

“Tipyn o Gês” Workshop

Onnen class were very fortunate to win a competition to receive a creative workshop – “Tipyn o Gês”. Llinos Mair author of the Wenfro book series visited the class to run the workshop. The inspiration for the workshop was the book “Parti Barti”. This tied in well with our theme “The Sea”. We learnt about re-cycling, sea pollution and caring for our environment. We had a lot of fun and a great experience. Following this workshop, we went on to create boats out of recycled materials.



50

Cystadleuaeth Fathemategol y Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol a'r Urdd



Cystadleuaeth Fathemategol y Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol a'r Urdd

Fis Ebrill fe gymrodd 22 o ddisgyblion blwyddyn 8 ran yng nghystadleuaeth fathemategol yr Urdd, wedi ei drefnu gan y Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol, Prifysgol Bangor, a'r Urdd. Yn Genedlaethol cafwyd cyfanswm o 726 o gystadleuwyr yn cynrychioli 23 ysgol. Llwyddodd 3 disgybl o'r ysgol i ennill dystysgrif felan am gyrraedd safon uchel sef Guto Childs, Sara Williams a Llio Evans. Llongyfarchiadau mawr iawn iddynt ac i bawb a ymgeisiodd yn yr her!

The Urdd and national science society Mathematics competition

During April 22nd, pupils from year 8 took part in the Urdd Mathematics competition which was arranged by the Bangor University National Science Society and the Urdd. Nationally, 726 pupils took part and 3 pupils from school were successful in winning a yellow certificate for reaching such a high level; Guto Childs, Sara Williams and Llio Evans. Congratulations to all who took part.

*At her tu hwnt i eiriau, - yn gynnes
â gwêñ y dof innau,
y mae hi'n her i'w mwynhau . . .
yr wyf yn caru rhifau.*

Tudur Dylan Jones



Awyr Agored, pêl-rwyd a rownderi

51



.Fel rhan o'r cwrs BTEC Awyr Agored, treuliodd Blwyddyn 12 a 13 pedwar diwrnod yng Nghlan Llyn. Profiad gwych lle gafon nhw cyfle i gymryd rhan mewn amryw o weithgareddau tir a dŵr er mwyn cyflawni uned ar gyfer eu hastudiaethau.

Llongyfarchiadau i Maisie Sandells am gael ei ddewis i chwarae i dîm Pêl-rwyd Powys. Bydd ymarferion yn cymryd lle pob mis yn Trallwng a bydd hi'n teithio i Gaerdydd a Bryste er mwyn chwarae gemau.

Llongyfarchiadau hefyd i'r timau rownderi a wnaeth chwarae mewn gemau yn Trallwng diwedd mis Mehefin a chyrraedd 4ydd a 5ed safle dros Bowys

Congratulations to Maisie Sandells for being chosen to represent Powys Netball. Training will take place in Welshpool and she will be playing games in Cardiff and Bristol.

Congratulations to both rounders' teams who played recently in Welshpool. Both teams gained success reaching 4th and 5th position

As part of the BTEC Outdoor Education course Year 12 and 13 spent 4 days In Glan Llyn. An great opportunity for them to experience and develop both land and water based skills.



52 TGAU Tecstiliau a Chelf




Braf oedd cael arddangos holl waith TGAU Tecstiliau a Celf ar gyfer arholwr allanol ddydd Gwener, 15fed o Fehefin. Roedd yr arholwraig yn dweud bod yn bleser gweld gwaith mor amrywiol, lliwgar ac o safon uchel. Tynodd y prif arholwr lun o addurn wal Heledd Ellis gan ei bod yn meddwl ei fod mor drawiadol. Braf hefyd oedd gwahodd rhieni i mewn i weld gwerth dwy flynedd o waith y disgyblion.

It was wonderful to be able to display all GCSE Textiles and Art work for the external examiner Friday 15th June. The examiner said that it was, "A pleasure to see such varied, colourful and high quality work." The chief examiner even took a photograph of Heledd Ellis' wall hanging as she thought it was so impressive! It was wonderful to welcome parents to see their child's work: the result of two long, hard but very production years.



GCSE Textiles and Art

53



54

UG Tecstiliau, Celf Gain a Celf, Crefft a dylunio / AS Textiles, Fine Art and Art, Craft and Design



Ddydd Mawrth 19 Mehefin, cafodd gwaith As Tecstiliau, Celf Gain, Crefft a Dylunio ei arddangos yn ystafell 14 ar gyfer arholwr allanol.

Edrychwyn ymlaen i weld y canlyniadau ym mis Awst.

Hoffwn ddiolch i'r holl ddisgyblion am eu gwaith caled yn helpu arddangos y gwaith.

Tuesday, 19th June, the work of AS textiles, fine art and art, craft and design was displayed in room 14 for the external examiner.

We look forward to see the results in August.

I would like to thank all the pupils for their hard work in helping with creating an excellent display.



Gweithdy Celf/ Art Workshop

55

Myfwyrwyr Celf Blwyddyn 12
mewn gweithdy arlunydd.

Art Students in year 12 took part in a drawing workshop.




Ar 26, Mehefin, cafodd disgylion bl 12 brofiad bythgofiadwy wrth iddynt fynychu gweithdy lluniadu gyda'r arlunydd profiadol, Karen Pearce. Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth, oedd yn ariannu'r gweithdy cafodd ei gynnal yn yr Adran Gelf, Ysgol Penweddig.

Roedd hwn yn gyfle unigryw i weithio gyda a chael dosbarth meistr gan arlunydd proffesiynol, a hyderwn y bod y disgylion yn elwa yn fawr ohono.

On 26.6.18 yr 12 pupils from the school were invited to a life drawing workshop (clothed model) with the artist Karen Pearce. The Art Centre,

Aberystwyth, funded the workshop and was held in the art room at Ysgol Penweddig This was a unique opportunity to work from life and to be tutored by an experienced life drawing tutor.



56



Bu plant Bl7 yn adeiladu
tŷ chwilio gyda'r prosiect

"Bugs Life" - diolch yn
fawr iawn i Travis
Perkins, Machynlleth, am
roi adnoddau at y prosiect
yma.

*Year 7 Pupils have been
building bug hotels for
their "Bugs Life" Project.*

*Thank you to Travis
Perkins, Machynlleth for
donating the resources.*

Aug 2018



Cyflwyno tystysgrif gwobr efydd y sarter iaith i'r campws cynradd

